# Penodi Uwch Gymedrolwr
# Lefel 1-2 (CBAC) Dylunio Cynhyrchion Peirianneg Uned 1

Mae angen Uwch Gymedrolwr ar gyfer Lefel 1-2 (CBAC) Dylunio Cynhyrchion Peirianneg Uned 2. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio'n agos â'r tîm Peirianneg gan sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo ef/iddi hi gyfrannu at hyfforddiant cymedrolwyr, gan arwain y broses safoni yn y gynhadledd cymedrolwyr. Disgwylir iddo ef/iddi hi hefyd gyfrannu at gyflwyniad y rhaglen DPP a bod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

## Cyfrifoldebau Uwch Gymedrolwyr

Mae'r Uwch Gymedrolwyr yn gyfrifol am osod y safonau ar gyfer cymedroli gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol gan y canolfannau. Rhaid i'r Uwch Gymedrolwr wneud y canlynol:

- asesiadau di-arholiad dylunio a datblygu ar gyfer unedau 1 a 2
- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi, lle bo angen, arweinwyr tîm a chymedrolwyr;
- mynychu a goruchwylio'r cynadleddau cymedrolwyr a/neu'r cyfarfodydd dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, a hefyd i fynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm a chraffu, drwy samplu safonau marcio'r cymedrolwyr
- monitro safonau'r holl gymedrolwyr ar gyfer yr uned hon, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb;
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau i ganolfannau fydd wedi'u paratoi gan gymedrolwyr;
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned, gan ddilyn ffurf y bydd CBAC wedi'i phennu;
- bod ar gael i wneud gwaith marcio adolygol ar bob sesiwn yn ôl gofynion CBAC mewn perthynas ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae swydd Uwch Gymedrolwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster, ac oherwydd hynny ar gyfer y pwnc hwn mae angen ymrwymo cryn dipyn o amser i'r gwaith. Mae angen i Uwch Gymedrolwyr fod ar gael am o leiaf **tri** diwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu'r gynhadledd cymedrolwyr a'r gynhadledd ddyfarnu ym mis Gorffennaf. Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i Uwch Gymedrolwyr wneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau Dysgu Proffesiynol CBAC hefyd.

## Profiad/cymwysterau angenrheidiol

- Addysg i lefel gradd. (h.y. D & T)
- Lefel 3 o leiaf mewn peirianneg neu brofiad cyfwerth. (h.y. D & T)

- y gallu i ddylunio a lluniadu i safon BS8888
- mynediad at becyn CAD a'r gallu i'w ddefnyddio
- profiad addysgu perthnasol
- profiad o gymedroli cyrff dyfarnu
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â engineering@wjec.co.uk. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **5 Awst 2024.**

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewn gofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Safonwr Lefel 1-2 (CBAC) Peirianneg Uned 1** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Emily Safadi<br>emily.safadi@wjec.co.uk<br>02920 265 305 |